**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 24 Ionawr 2017

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Hugh Evans - Arweinydd
Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio

**Awdur yr Adroddiad:** Alan Smith

**Teitl:** **Cynlluniau cymunedol yn y Cyngor newydd**

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn disgrifio model newydd o gynllunio cymunedol ar gyfer y Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Cyngor yn cefnogi cynllunio cymunedol ar hyn o bryd mewn amryw o ffyrdd gwahanol, gan gynnwys trwy Gynlluniau Tref ac Ardal Sir Ddinbych. Fodd bynnag, bydd y sefyllfa yn wahanol yn y Cyngor newydd, gyda newidiadau yn y cyllid sydd ar gael i gymunedau, newidiadau mewn deddfwriaeth berthnasol a newidiadau yn uchelgeisiau'r Cyngor. Mae'r ffocws yma ar Gynlluniau Tref ac Ardal, ond mae'r model arfaethedig yn cynnwys defnydd ehangach.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

1. Nad yw'r Cynlluniau Tref ac Ardal ar gyfer pob ardal Grŵp Ardal Aelodau yn ofynnol mwyach.
2. Bod y system newydd o gynllunio Cymunedol a ddisgrifir yn yr adroddiad yn cael ei fabwysiadu.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae'r Cynlluniau Tref ac Ardal a ddatblygwyd gan Gyngor Sir Ddinbych wedi llwyddo i ddisgrifio'r hyn mae cymunedau yn ceisio ei gyflawni. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser wedi gallu cyflwyno gweledigaeth strategol ar gyfer ardal, yn aml yn canolbwyntio ar gynlluniau ar raddfa fechan. Maent hefyd wedi tueddu i fod yn eiddo i Grwpiau Ardal yr Aelodau yn hytrach na'r gymuned gyfan. Felly er bod y Cynlluniau Tref ac Ardal wedi cynhyrchu deilliannau positif, nid ydynt wedi cyflawni gymaint ag yr oeddent wedi'i obeithio'n wreiddiol. Roedd hyn wedi'i adlewyrchu mewn adroddiad i'r Cabinet yn 2015, a oedd yn argymell dull newydd.

O ganlyniad, ac yn dilyn proses flaenoriaethu fanwl o dan arweiniad grŵp Cefnogwyr Tref, defnyddiwyd y Cynlluniau Tref ac Ardal i nodi cyfres o brosiectau gan ddefnyddio gweddill yr arian cyfalaf cymunedol gwreiddiol. Bydd yr arian hwn wedi'i ddyrannu'n llwyr erbyn diwedd Ebrill 2017. Mae'n werth nodi bod llawer o'r syniadau ar gyfer prosiect mwyaf llwyddiannus wedi dod yn uniongyrchol o gymunedau lleol, yn hytrach na'r broses Cynlluniau Tref ac Ardal.

O dan bolisi presennol y Cyngor, ni fydd yna arian cyfalaf pellach gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer prosiectau Cynlluniau Tref ac Ardal ar ôl Ebrill 2017. Felly, mae'n amserol i adolygu'r model cynllunio Tref ac Ardal sydd gennym yn Sir Ddinbych a meddwl beth fydd ei angen ar gyfer y drefn weinyddu newydd. Mae'n faes lle gallwn

fraenaru'r tir iddynt fel y gallant ganolbwyntio ar y cynllun corfforaethol pum mlynedd newydd.

Yn amlwg, mae rhai pethau wedi newid ers i'r cynlluniau gael eu datblygu'n wreiddiol.

- Roedd y Cynlluniau Tref ac Ardal gwreiddiol yn canolbwyntio'n helaeth ar yr economi, ond mae Datblygu Busnes a'r Economi bellach yn gweithio ar gynllun datblygu busnes fydd yn cynnwys trefi Sir Ddinbych i gyd yn y dyfodol;
- Fel Cyngor rydym yn dechrau meddwl mwy am sut yr ydym yn ymgysylltu â chymunedau a beth fydd yn dod â ni yn agosach atynt. Mae hyn hefyd wedi codi fel llinyn cryf yn Sgwrs y Sir. Mae deddfwriaeth diweddar Llywodraeth Cymru, fel y Ddeddf Cynllunio (Cymru) newydd a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein hannog i fabwysiadu dulliau newydd ar gyfer cynllunio lleol; rhai sy'n llai ffurfiol ac yn canolbwyntio mwy ar ddatblygu gwydnwch cymunedol.

Er mwyn ymateb i'r newidiadau hyn, dylai Cyngor Sir Ddinbych ganolbwyntio ar 'alluogi a hwyluso' yn hytrach nag arwain, felly fel Cyngor y byddwn yn ymateb i fentrau cymuned yn hytrach na'u hawgrymu. Byddai hyn yn newid sylweddol i'r arfer bresennol, oherwydd ar hyn o bryd, yn gyffredinol y Cyngor yw perchennog a dechreuwr cynlluniau cymunedol, gan gynnwys Cynlluniau Tref ac Ardal.

Yn hytrach na'r un dull i bawb, dylai Cyngor Sir Ddinbych ond cynnig cefnogaeth benodol i gymunedau sy'n dymuno datblygu cynlluniau neu brosiectau lleol eu hunain. Ni fyddai yna ddisgwyliad cyffredinol bod pob ardal yn cyfrannu'n gyfartal. Efallai y bydd rhai cymunedau yn cymryd mantais o'r hyn sydd ar gael, eraill ddim. Mae'n ddull fyddai'n gweithio i ardaloedd Grŵp Ardal Aelodau presennol, ond byddai hefyd yn gweithio i gymunedau llai (neu fwy) hefyd. Bydd hefyd yn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd gennym ar gael mewn sefyllfa lle mae unrhyw arian sydd ar gael i gefnogi prosiectau cymunedol yn debygol o ddod o'r tu allan i'r Cyngor trwy grantiau, nag oddi wrth Cyngor Sir Ddinbych yn uniongyrchol.

Hanfod y trefniant hwn yw sicrhau bod 'pecyn gwaith' ar gael i gymunedau lleol i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau cymunedol eu hunain. Byddai hyn yn cynnwys:

- Proffiliau Lle ar gyfer cymunedau Sir Ddinbych;
- Cyngor/cefnogaeth cynllunio technegol;
- Cyngor/cefnogaeth llywodraethu i helpu i sefydlu grwpiau cymunedol;
- Cyngor ar grantiau sydd ar gael a datblygu achosion busnes;
- Cyngor ar ymgysylltu a thechnegau i weithio gyda chymunedau lleol.
- Cyngor a chefnogaeth tai a chymdogaeth i denantiaid Cyngor Sir Ddinbych

Bydd y wybodaeth yn y pecyn hwn ar gael ar wefan Cyngor Sir Ddinbych ac o bosibl fel cyhoeddiad. Bydd rhywfaint o gyngor a chymorth hefyd ar gael gan swyddogion, yn dibynnu ar yr hyn sydd ei angen, gan staff Gwella a Moderneiddio Busnes, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a'r adran Dai. Bydd cynnig cyngor a chymorth fel cyswllt canolog, gan gynnwys cyfeirio at wasanaethau eraill yn rôl allweddol i'r Swyddog Prosiectau Cymunedol, Gwella a Moderneiddio Busnes, fydd â mwy o gapasiti ar ôl i'r gyfres bresennol o brosiectau Cynlluniau Tref ac Ardal gael eu cwblhau.

O ran dull, mae hyn yn unol â bwriad y deddfau perthnasol ac mae hefyd yn cyd-fynd ag uchelgeisiau'r Cyngor i gynyddu cadernid yng nghymunedau lleol Cyngor Sir

Ddinbych. Mae hierarchaeth model Gwasanaethau Cymdeithasol o ‘Wybodaeth, Cyngor a Chymorth’ yn ddisgrifiad priodol o’r dull hwn.

Mae ymgynghori gydag Aelodau a swyddogion ar y syniad hwn yn ystod y misoedd diwethaf wedi codi rhai materion pwysig ynglŷn â pherchnogaeth a chyfranoldeb, felly mae yna rai ystyriaethau i’w hychwanegu. Yn gyntaf, mae’n bwysig pwysleisio y bydd y wybodaeth ar wefan y Cyngor ar gael i unrhyw un ei defnyddio. Yn ail, bydd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn brif ddarparwr gwybodaeth a chefnogaeth i fentrau cymunedol hefyd, fel ar hyn o bryd, a bydd Cyngor Sir Ddinbych yn arwyddbostio'n glir. Fodd bynnag, lle mae’r gefnogaeth gan swyddogion Cyngor Sir Ddinbych yn ymddangos yn berthnasol ac yn ddefnyddiol, mae’n rhaid i ambell gafeat fod yn berthnasol:

- I fynd i’r afael â’r mater ynglŷn â pherchnogaeth gymunedol, cyn buddsoddi adnoddau ac amser swyddogion mewn syniad neu brosiect, mae’n rhaid gwneud yn siŵr bod yna gonsensws/gefnogaeth ddigonol. Er mwyn i brosiectau neu gynlluniau fod yn gymwys ar gyfer cymorth ffurfiol gan y Cyngor, dylent gael llythyr cefnogi gan eu Haelod neu Grŵp Ardal Aelodau lleol. Ni fyddai Cyngor Sir Ddinbych yn cefnogi unrhyw gynllun neu gynnig nad yw’n cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol; yn gwrthdaro ag amcanion y Cyngor neu os nad yw’n ei ystyried yn ddefnydd effeithiol o adnoddau cyhoeddus.
- Mae yna bryder na fyddai gan rai o’n cymunedau mwyaf difreintiedig y cyfalaf cymdeithasol i wneud y gorau o’r adnoddau fyddai ar gael trwy’r dull newydd hwn. Felly dylem sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth arbennig i sut yr ydym yn cefnogi cymunedau o’r fath, ac efallai y bydd hyn angen cynnwys cefnogi grwpiau cymunedol â phroblemau llywodraethu. Heblaw am y gallu i ddenu

cyllid grant, neu i ddatblygu cefnogaeth gymunedol ar gyfer prosiect neu fenter leol, mae yna fanteision eraill dros gefnogi capasiti cymunedol fel hyn. Un o’r amodau yn y Ddeddf Cynllunio (Cymru) newydd yw y gall cymunedau ddylanwadu ar ganllawiau cynllunio lleol trwy ddatblygu cynlluniau cymunedol (‘Cynlluniau Lle’ yn y ddeddfwriaeth). Gall y cynlluniau cymunedol hyn gael eu defnyddio i gynnwys canllawiau thematig neu fwy penodol ar gyfer safle fel atodiad i bolisïau a chynigion yn y Cynllun Datblygu Lleol. Gall cynlluniau cymunedol hefyd helpu ar gyfer datblygu neu adolygu’r CDLl a gellir eu datblygu gyda neu ar ôl mabwysiadu’r CDLl. Mae’n eithaf posibl y bydd cynllun cymunedol datblygol yn dymuno dylanwadu ar y CDLl yn ogystal â chefnogi datblygiad menter leol.

Bydd Cynlluniau Cymunedol a fwriedir i ddylanwadu ar gynllunio lleol angen diwallu meini prawf mwy ffurfiol, yn ôl y disgwyl. Bydd angen eu paratoi mewn ymgynghoriad â chymunedau lleol, busnesau ac ymgyngoreion eraill â diddordeb. Bydd yn rhaid ystyried yr holl sylwadau a chofnodi unrhyw newidiadau a wnaed cyn cwblhau’r cynllun. Os bydd y cynllun yn cynnwys unrhyw oblygiadau ar gyfer canllawiau cynllunio yn yr ardal leol yna byddent yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor a’u mabwysiadu’n ffurfiol fel Canllaw Cynllunio Atodol, cyn belled â’i fod yn cydymffurfio â’r CDLl. Yna, byddai cynlluniau o’r fath yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Bydd cyngor ar bob agwedd o gynllunio cymunedol, gan gynnwys cynlluniau ffurfiol o dan y Ddeddf Cynllunio ar gael ar wefan y Cyngor ac os yn briodol, y swyddogion perthnasol trwy'r dull pecyn cymorth cynllunio cymunedol arfaethedig.

Os byddwn yn mabwysiadu'r dull hwn ar gyfer cynllunio cymunedol, ni fyddwn angen Cynlluniau Tref ac Ardal ffurfiol ynghlwm wrth ardaloedd Grŵp Ardal Aelodau yn y dyfodol – yn hytrach bydd cynlluniau lleol ar gael ac yn eiddo i bobl leol. Gall y cynlluniau hyn fod yn fawr neu'n fach, gallant ymwneud â threfi cyfan neu bentrefi sengl, yn anad dim, gallant fod yn ymatebol i uchelgais cymuned leol. Yn y Cyngor newydd o fis Mai 2017, gallwn symud i ffwrdd o'r Cynlluniau Tref ac Ardal o dan arweiniad y Cyngor a biwrocrataidd i system llawer mwy hyblyg o helpu cymunedau i ddatblygu eu cynlluniau eu hunain trwy *alluogi* yn hytrach na *darparu*.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae gan y Cyngor nod tymor hir i ymgysylltu'n effeithiol gyda'i gymunedau; bydd y model arfaethedig yn cefnogi hyn. Yn ogystal, bydd y cynnig yn galluogi'r Cyngor i ddiwallu gofynion deddfwriaeth newydd ac o bosibl dylanwadu ar sut y gweithredir y ddeddfwriaeth honno.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol wedi eu nodi ar gyfer unrhyw Wasanaeth. Bydd unrhyw gamau arfaethedig wedi eu cynnwys drwy adleoli adnoddau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Yn gyffredinol mae'r cynnig hwn yn gadarnhaol mewn nifer o brif feysydd, ond yn arbennig o ran cydlyniant cymunedol, gwydnwch a ffyniant. Mae angen sicrhau cefnogaeth ychwanegol i'n cymunedau mwyaf difreintiedig i'w galluogi i wneud y gorau o'r cyfleoedd newydd hyn os bydd angen.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae'r Grŵp Cefnogwyr Tref a'r Aelod Arweiniol wedi ystyried y syniad a chynnig eu cefnogaeth. Mae'r cynnig wedi'i drafod mewn Grwpiau Ardal Aelodau a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Gan y bydd cyllid y Cyngor yn debygol o barhau i leihau yn y tymor canolig, pa un ai o ran arian neu dermau real, mae'n bwysig bod prosiectau cymunedol yn gallu cael eu cefnogi neu eu hwyluso heb gyllid uniongyrchol gan y cyngor. Byddai'n rhaid i unrhyw ddyraniadau ariannol gan y cyngor ddod o adnoddau presennol a'u hystyried fel rhan o broses cyllideb y dyfodol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae yna risg i enw da a rheoleiddio'r Cyngor os na fyddwn yn gallu diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Cynllunio (Cymru).

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae angen penderfyniad gan y Cabinet i newid polisi'r Cyngor ar Gynlluniau Tref ac Ardal.